# WILLIAMS, WILLIAM (1747 - 1812), clerigwr efengylaidd

**Enw:** William Williams
**Dyddiad geni:** 1747
**Dyddiad marw:** 1812
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr efengylaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Daniel Williams

a adwaenir fel ' William Williams, Waterbeach,' sir Gaergrawnt. Wedi ei ordeinio penodwyd ef yn gaplan i ffowndri Seisnig yn Rotterdam, ac wedi hynny (1794-1812) yn ficer plwyf Waterbeach. Bu farw 13 Hydref 1812. Cysylltir ei gymwynas â Chymru â *Bibl Cyssegr-Lan*, arg. Caergrawnt, 1807. William Owen Pughe, oedd y cywirwr swyddogol. Trwy esgeulustra Pughe daeth agos i 3,000 o gopïau allan yn wallus ac anghyflawn - pennod viii o Llyfr y Barnwyr yn gwbl allan. Blinwyd Thomas Charles a'r awdurdodau; ond achubwyd eu pennau drwy egni ac ysgolheictod William Williams. Claddwyd ef yng nghangell ei eglwys, a dodwyd tabled goffa yn y mur.

## Awdur

**Y Parchedig Daniel Williams**, (1878 - 1968)

## Ffynonellau


W. K. Clay, *A History of the Parish of Waterbeach in the county of Cambridge* (Caergrawnt 1859), 1857

*The Gentleman's Magazine*, 1812, ii, 405

*The Bible in Wales* (London 1906)

D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908), iii, 90, 96



**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu